2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff CF10 4BZ

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

www.hefcw.ac.uk

# Cylchlythyr | Circular

## Cyllid Cyfalaf 2024-25

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 02 Gorffennaf 2024 | |
| **Cyfeirnod:** | W24/12HE | |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru | |
| **Ymateb erbyn:** | 30 Awst 2024 | |
| **Unigolyn cyswllt:** | Enw: | David Hunt |
| | E-bost: | assurance@hefcw.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu manylion y sail ar gyfer dyrannu cyllid Cyfalaf i Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn 2024-25, yr wybodaeth sydd ei hangen gan sefydliadau a'n dull o fonitro.

Mae'r cyllid hwn yn ymwneud â blwyddyn academaidd 2024/25, ac nid ydym yn disgwyl y bydd pontio i Medr, Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, yn effeithio arno, er y bydd y cyfrifoldeb am dalu, monitro ac adfachu unrhyw gyllid yn cael ei drosglwyddo i'r Comisiwn.

Bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn rhoi'r gorau i weithredu ar ôl 31 Gorffennaf 2024. Bydd dyletswyddau, cyfrifoldebau a staff CCAUC yn trosglwyddo i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, o 1 Awst 2024. Bydd unrhyw gylchlythyrau y mae gofyn rhoi sylw iddynt ar ôl 1 Awst 2024 ar gael ar wefan y Comisiwn o fis Awst.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Y Cefndir

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi yn ein llythyr cylch gwaith 2024-25 y bydd £10m o gyllid Cyfalaf ar gael i'w ddyrannu ym Mlwyddyn Ariannol 2024-25. Fel ar gyfer cyllid Cyfalaf blaenorol, bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i ategu blaenoriaethau strategol a amlinellwyd yn y llythyr cylch gwaith (gan gynnwys Sero Net) ac i roi cymorth i gyflawni Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

## Sail y dyraniadau cyllid cyfalaf

2. Bydd y cyllid Cyfalaf yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar ddull fformiwläig. Gan y dylai'r cyllid gael ei ddefnyddio, o leiaf yn rhannol, i gefnogi dysgu ac addysgu, profiad myfyrwyr a'r seilwaith ar gyfer myfyrwyr, mae'r dyraniadau wedi cael eu pennu yn seiliedig ar niferoedd y myfyrwyr. Mae niferoedd y myfyrwyr mewn sefydliad yn ddull procsi rhesymol o gyfrifo maint yr ystâd a'r cyfleusterau sydd eu hangen. Mae'r dull hwn yn gyson â'n dull blaenorol o ddyrannu cyfalaf.

3. Y niferoedd myfyrwyr a ddefnyddiwyd ar gyfer y dyraniad cychwynnol yw'r Niferoedd Cyfwerth ag Amser Llawn (Niferoedd CALl) diweddaraf o Gofnod Myfyrwyr HESA ar gyfer pob dull, lefel a gwlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni yn seiliedig ar flwyddyn academaidd 2022/23.

## Cymhwyso isafswm dyraniad cyllid

4. Er mwyn darparu cyllid Cyfalaf a fydd yn galluogi pob sefydliad i fuddsoddi mewn prosiectau a fydd yn cael effaith gynaliadwy, mae isafswm gwerth dyraniad o £750,000 wedi cael ei gymhwyso.

5. Mae'r cyllid ar gyfer sefydliadau lle'r oedd y dyraniad gwreiddiol yn seiliedig ar niferoedd eu myfyrwyr CALl yn is na'r gwerth yma wedi cael ei gynyddu i'r swm yma a'r niferoedd CALl ar gyfer y sefydliadau hynny wedi cael eu tynnu allan o'r cyfrifiad wedi hynny. Mae gweddill y cyllid sydd ar gael wedi cael ei ddosrannu rhwng y sefydliadau eraill yn seiliedig ar y niferoedd CALl a oedd yn weddill yn y cyfrifiad.

6. Yn sgil ei hystâd ffisegol gyfyngedig yng Nghymru a'i gallu i gael mynediad at ffrydiau cyllid Cyfalaf eraill yn y DU, isafswm dyraniad y Brifysgol Agored fydd hanner gwerth y trothwy isaf hwn (£375,000).

7. Caiff y dyraniadau canlyniadol i bob sefydliad ar gyfer cyllid 2024-25, yn seiliedig ar y fethodoleg uchod, eu darparu yn **Atodiad A.**

## Cyflwyno cynlluniau

8. Bydd hi'n ofynnol i sefydliadau ddarparu eu cynlluniau buddsoddi Cyfalaf ar gyfer y cyllid hwn, ynghyd â'u strategaethau Ystadau, gyda manylion sy'n dynodi sut y mae'r cynlluniau buddsoddi'n gyson â'u strategaethau Ystadau. Os yw

strategaethau Ystadau yn y broses o gael eu diweddaru, rhaid darparu diweddariad ysgrifenedig sy'n cynnwys blaenoriaethau ar gyfer ystadau.

9. Dylai'r cynlluniau buddsoddi cyfalaf gynnwys manylion gwariant arfaethedig y sefydliad a sut y bydd yn ategu'r blaenoriaethau strategol a amlinellir yn y llythyr cylch gwaith ac yn rhoi cymorth i gyflawni Rhaglen Lywodraethu LlC. Mae Sero Net ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, felly dylai sefydliadau roi'r flaenoriaeth i brosiectau sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â hynny. Mae'n debygol y byddai prosiectau o'r fath hefyd yn creu buddion ehangach yn gysylltiedig â materion eraill â blaenoriaeth, fel bioamrywiaeth. Dylai sefydliadau hefyd amlygu sut y bydd cynlluniau'n gwella'r gofod dysgu ac addysgu ac o fudd i brofiad myfyrwyr.

10. Bydd Swyddogion Medr yn anelu i gadarnhau bod cynlluniau buddsoddi Cyfalaf yn briodol ac yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol. Gofynnir am ragor o wybodaeth os bydd angen.

11. Yn lle casglu data ar ystadau gennych ar wahân, byddwn yn gofyn ichi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf a gyflwynwyd gennych i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag adrodd ar allyriadau Carbon/Sero Net. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn osgoi dyblygu gwaith heb fod angen.

12. Byddwn yn parhau i fonitro metrigau HESA drwy'r datganiadau data a gyhoeddir ac felly dylai sefydliadau barhau i fod yn ymwybodol o'r effaith y gallai prosiectau ei chael arnynt.

13. Mae profforma ar gyfer y cynlluniau hyn wedi'i gynnwys yn **Atodiad B**.

14. Os bydd gennym unrhyw bryderon ynghylch priodoldeb unrhyw brosiectau penodol, gallwn ei gwneud yn ofynnol bod y cyllid yn cael ei ddargyfeirio at rai mwy addas. Gan hynny, rydym yn argymell bod sefydliadau'n darparu cynlluniau y tu hwnt i'w dyraniad i ganiatáu hyblygrwydd.

15. Os bydd sefydliad yn rhagweld na fydd yn gallu gwario'i ddyraniad llawn, dylai roi gwybod inni ar y cyfle cynharaf a bydd unrhyw arian sydd dros ben yn cael ei ailddyrannu i sefydliadau eraill drwy'r dull fformiwläig a ddisgrifiwyd yn flaenorol.

16. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) ar gael i gynorthwyo sefydliadau i nodi, datblygu a chyflawni prosiectau carbon/sero net (ee, effeithlonrwydd ynni, gwres carbon isel a chynhyrchu ynni adnewyddadwy). Anogir sefydliadau i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn a gyllidir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu agweddau carbon/sero net ar eu cynlluniau buddsoddi cyfalaf. Gellir cael mynediad at y gwasanaeth drwy enquiries@energyservice.wales.

17. Os oes gennych unrhyw ymholiadau gallwch hefyd gysylltu â Rhys Horan (rhys.horan@energyservice.wales) a all rannu rhagor o fanylion am yr arweinydd strategol a'r rheolwr datblygu a neilltuwyd i'ch sefydliad.

## Monitro Blynyddol

18. Bydd ymarfer monitro’n cael ei gynnal yn 2025 ar ddyddiad addas i sicrhau bod y cyllid wedi cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd ac i roi diweddariad ar effaith y buddsoddiad.

19. Bydd disgwyl i sefydliadau roi dadansoddiad o’r gwariant Cyfalaf mewn ffordd sy’n ei gwneud hi'n bosibl cymharu â’r cynllun gwreiddiol gan roi esboniadau ar gyfer unrhyw wahaniaethau.

20. Gofynnir i sefydliadau roi crynodeb ansoddol o'r effeithiau cadarnhaol y mae'r cyllid hwn wedi'u cael/yn eu cael o ran cyflawni blaenoriaethau LIC a'r meini prawf a nodir uchod.

## Amserlen

21. Gofynnir i ddarparwyr gyflwyno eu strategaethau a phrofformau eu cynlluniau i Medr yn ystod haf 2024.

22. Bydd swyddogion yn gwneud gwaith dadansoddi ac yn gwneud unrhyw ymholiadau dilynol os oes angen.

23. Bydd Medr yn dechrau rhyddhau’r arian a ddyrannwyd i sefydliadau ar ôl cael a chytuno ar gynlluniau o dymor yr hydref 2024, gydag union amseriad hyn i'w benderfynu.

24. Bydd y broses fonitro flynyddol yn digwydd yn 2025 ar ddyddiad addas.

25. Darperir y cyllid hwn yn unol â'r amodau cyffredinol ar gyfer talu cyllid gan CCAUC i Gorff Llywodraethu sefydliad. Nodir y rhain yn y Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd (W15/32HE).

## Rhagor o wybodaeth

26. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â David Hunt, assurance@hefcw.ac.uk (neu sicrwydd@medr.cymru o 1 Awst 2024).

27. Bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn rhoi’r gorau i weithredu ar ôl 31 Gorffennaf 2024. Bydd dyletswyddau, cyfrifoldebau a staff CCAUC yn trosglwyddo i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, o 1 Awst 2024. Bydd unrhyw gylchlythyrau y mae gofyn rhoi sylw iddynt ar ôl 1 Awst 2024 ar gael ar wefan y Comisiwn o fis Awst.

28. Os oes arnoch angen cael gafael ar gyhoeddiad nad yw ar gael yn rhwydd ym mis Awst, anfonwch neges e-bost i cyhoeddiadau@medr.cymru.

## Asesu effaith ein polisïau

29. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio asesu effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Mae cyfrifoldeb hefyd ar sefydliadau addysg uwch sy'n bartneriaid i asesu effaith eu cynigion er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

**Modelu cyllid cyfalaf 2024/25**

**Trothwy o £750k**

**Pob Myfyriwr**

| **Sefydliad** | **Niferoedd Myfyrwyr 2022/23 a CALI** | | **Dyraniadau pro rata i (£):** | **Y ganran a ddyrennir i bob sefydliad** |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | CALI | CALI | CALI |
| Prifysgol De Cymru | | 17,856 | 1,426,430 | 14% |
| Prifysgol Aberystwyth | | | 750,000 | 8% |
| Prifysgol Bangor | | | 750,000 | 8% |
| Prifysgol Caerdydd | | 28,016 | 2,238,013 | 22% |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | | 12,598 | 1,006,371 | 10% |
| Prifysgol Abertawe | | 18,639 | 1,488,947 | 15% |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | | 11,949 | 954,527 | 10% |
| Prifysgol Wrecsam | | | 750,000 | 8% |
| Y Brifysgol Agored | | 7,958 | 635,712 | 6% |
| **Cyfanswm** | | **97,016** | **10,000,000** | **100%** |

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA 2022/23

Niferoedd Myfyrwyr heb eu defnyddio wrth gyfrifo: Poblogaeth gofrestru safonol HESA, pob dull, lefel a gwlad
Myfyrwyr CALI a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo: Poblogaeth Sesiwn HESA, pob dull, lefel a gwlad

**Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**
**Cynlluniau ar gyfer dyrannu cyllid cyfalaf 2024-25**

| |
|---|
| *Gellir addasu'r profforma hon i weddu i'r cynlluniau unigol a gyflwynir gan bob sefydliad.* |

**Sefydliad:**

*Rhowch grynodeb byr o'ch Strategaeth Ystadau ddiweddaraf. Hefyd, darparwch gopi ar wahân o'ch Strategaeth Ystadau lawn ddiweddaraf. Os gwnaethoch ddarparu'r wybodaeth hon y llynedd, gallwch roi diweddariad ar unrhyw newidiadau i'r strategaeth yn lle hynny. Gofynnir ichi amlygu unrhyw feysydd sy'n cyfrannu'n benodol at y meini prawf cyllido.*

| **Crynodeb o'r Strategaeth (uchafswm o 3,000 o eiriau)** |
|---|
| |

*Disgrifiwch gynlluniau eich sefydliad ar gyfer defnyddio cyllid Cyfalaf 2024-25, drwy ddarparu gwybodaeth isod am un neu fwy o brosiectau a fydd yn ategu blaenoriaethau strategol a amlinellir yn y llythyr cylch gwaith ac yn rhoi cymorth i gyflawni Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, yn enwedig prosiectau a fydd:*

- ***Yn hwyluso'r broses o ymateb i Sero Net ac ymdrin ag argyfwng yr hinsawdd.***
- ***Yn gwella'r gofod Dysgu ac Addysgu ac o fudd i Brofiadau Myfyrwyr.***

*Mynegwch yn glir sut mae prosiectau'n mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn ac yn creu budd i Brofiadau Myfyrwyr.*

**Prosiect 1 –**

| **Disgrifiad o'r defnydd arfaethedig o'r arian** | **Llinellau amser dangosol a dadansoddiad o'r gwariant** |
|---|---|
| | |
| **Cyfanswm** | |

**Prosiect 2 –**

| **Disgrifiad o'r defnydd arfaethedig o'r arian** | **Llinellau amser dangosol a dadansoddiad o'r gwariant** |
|---|---|
| | |
| **Cyfanswm** | |

| **Prosiect 3 –** | |
|---|---|
| **Disgrifiad o'r defnydd arfaethedig o'r arian** | **Llinellau amser dangosol a dadansoddiad o'r gwariant** |
| | |
| **Cyfanswm** | |

| **Prosiect 4 –** | |
|---|---|
| **Disgrifiad o'r defnydd arfaethedig o'r arian** | **Llinellau amser dangosol a dadansoddiad o'r gwariant** |
| | |
| **Cyfanswm** | |

*Ychwanegwch brosiectau eraill yn ôl yr angen.*

| **Cyfanswm yr holl elfennau** | **£** |
|---|---|

| **Cydymffurfio â Gofynion Rheoleiddiol - Cadarnhewch** | |
|---|---|
| i) Safonau'r Gymraeg (2018) *[Defnyddiwch y gwymplen]* | Dewiswch eitem. |
| ii) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb *[Defnyddiwch y gwymplen]* | Dewiswch eitem. |
| iii) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)/Dyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) *[Defnyddiwch y gwymplen]* | Dewiswch eitem. |

| **Llofnod** | |
|---|---|
| **Dyddiad** | |